

Ydy ymgysylltiad y plant yn newid o ganlyniad i grwpio?

	Targed/Target	Yr hyn yr wyf wedi'i wneud yn yr aseiniad hwn. What I have done in this assignment.
Targed/Target 1	Ail-edrych ar systemau cyfeirnod Harvard i wella cyfeirnod gyffredinol.	Adolygu'r system Harvard wrth i mi ysgrifennu'r traethawd
Targed/Target 2	Ar gyfer aseiniadau pellach dylid parhau i rai gwallau ieithyddol. ac o bosib meddalwedd gwirio iaith, megis Cysgair neu Cysill, yn ddefnyddiol gyda'r gwirio hyn.	Defnyddiais Cysill a Cysgair wrth ysgrifennu'r traethawd yn ogystal â Geiriadur yr Academi.
Targed/Target 3 - personol	I ddefnyddio ystod o lenyddiaeth wahanol megis llyfrau, cyfnodolion, gwefannau, dogfennau.	Credaf fy mod wedi defnyddio'r gwahanol fath o lenyddiaeth yma.

Ffocws yr ymchwil

Yn fy nosbarth yn ystod bloc dau PAP un roedd y plant wedi ei grwpio o fewn grwpiau gallu. O ganlyniad i hyn roeddwn i eisiau gwneud gwaith ymchwil am ymgysylltiad y plant o fewn grwpiau gallu, ac os oedd gwahaniaeth i'r ymgysylltiad hwn i gymharu ag o fewn grwpiau gallu cymysg. Ffocws yr ymchwil felly ydy i ddarganfod os ydy hyder, ymateb a'r parodrwydd i helpu eraill yn newid o fewn grwpiau gallu a grwpiau gallu cymysg.

Cyd-destun yr ymchwil

Ein cwestiwn ymchwil ydy 'Ydy ymgysylltiad y plant yn newid o ganlyniad i'r grwpio?' Fe fydd yr ymchwil yn digwydd o fewn un dosbarth sef blwyddyn un (dosbarth B) ac un dosbarth blwyddyn un a dau (dosbarth A) o fewn dwy ysgol wahanol. Mae'r ddau ddosbarth hyn wedi grwpio'r plant yn ôl gallu. Mae 29 o ddisgyblion yn Nosbarth A ac mae naw o rain yn flwyddyn dau a'r gweddill yn flwyddyn un. Mae'r dosbarth yma o fewn ysgol o tua 300 o blant ac wedi ei leoli yn Ne Ddwyrain Cymru (Estyn, 2016). Mae gan Ddosbarth B 26 o ddisgyblion rhwng pump a chwe blwydd oed. Mae'r dosbarth yma'n rhan o'r 425 o blant sydd yn mynychu'r ysgol yn Ne Ddwyrain Cymru (Estyn, 2018).

Trosolwg byr o lenyddiaeth

Mae llawer iawn o farnau gwahanol wrth drafod sut dylai plant cael ei grwpio o fewn dosbarth. Mae grwpio plant wedi cael ei dadlau am dros ganrif ac mae'n bwnc sy'n creu teimladau cryf (Hallam a Ireson, 2001, t.1). Disgrifiwyd Hallam a Ireson (2001, t.1) bod grwpio yn ôl gallu yn "thorny issue, tied to fundamental, often conflicting, ideological positions". Noda un prifathro bod grwpio plant ysgol gynradd yn ôl ei gallu yn system sy'n "outdated, indefensible and entirely unfit for purpose" (Grant, 2019). Credai Grant bod grwpio plant yn ôl ei gallu yn ymwneud â rheoli'r amgylchedd dysgu ac nid oes elw addysgol i blant (Grant, 2019). Ond er hyn creda Dr Taylor bod grwpio plant yn ôl gallu cymysg "is widely seen as difficult and unconventional, and therefore risky" (dyfynnwyd yn Robertson, 2017). O ganlyniad i'r elfen fentrus hon, mae cyrhaeddiad dysgwyr yn gallu cael ei effeithio ac yn dioddef (dyfynnwyd yn Robertson, 2017).

Fel gwelir uchod mae gan Grant a Taylor barnau cyferbyniol i'w gilydd o ran sut dylid plant cael ei grwpio a'r heriau sydd yn dod gyda'r ddau fath yma o rwpio. Edrychais ymhellach ar y barnau cyferbyniol hyn wrth ddarllen erthygl 'Pupils 'prefer sets to mixed-ability groups' (George, 2018). Cynhaliwyd arolwg gan YouGov a wnaeth ddangos bod "pupils themselves are more likely to favour banded classes" (Waldersee, 2018). Fe wnaeth yr arolwg yma adlewyrchu bod bechgyn a merched yn ffafrio grwpiau gallu dros grwpiau gallu cymysg (George, 2018). Dangosir y canlyniadau hyn bod disgyblion yn ffafrio grwpiau gallu gyda chanlyniad o 39% i gymharu â 30% a oedd yn ffafrio grwpiau gallu cymysg (George, 2018).

Mae hi'n ddiddorol felly wrth drafod barn Grant yn ei erthygl 'Grouping primary children by ability is indefensible' i gymharu â barn plant am rwpio. Yn ôl Grant mae grwpio plant o ran lefel eu gallu yn creu problemau hunan hyder a gorhyder yn y plant (Grant, 2019). Mae'r plant sydd yn y 'grŵp gwaelod' yn dioddef o broblemau hunanhyder i gymharu â'r plant sydd yn y 'grwpiau uchel' sydd yn dioddef o gorhyder (Grant, 2019). Noda ef hefyd bod y grwpiau canolig yn cael ei anwybyddu ac anghofio rhywfaint gan yr athro gan ei bod nhw'n ffocysu gormod ar herio'r disgyblion o allu uchel ac yn brysur yn rhoi cymorth i ddisgyblion o allu is (Grant, 2019). Dangosodd ymchwil Hallam a Ireson (2001, t.61) bod grwpio yn ôl gallu yn cael effaith ar hunanhyder y disgyblion yn ogystal â'u "academic self concept and their emotional responses to school.

Credai'r rhai sydd o blaid grwpiau gallu bod hyn yn cynnig "a simple, rational response to the problem of low attainment" (Hallam a Ireson, 2001, t.1). Ond mae Taylor et al (2016, t.328) yn anghytuno gyda hyn gan ddatganu bod disgyblion o fewn grwpiau gallu is yn cael ei amharu ar mewn ffordd negyddol. Mae Boaler yn anghytuno hefyd gyda grwpio

plant yn ôl gallu. Creda hi fod grwpio yn ôl gallu yn medru gweithredu fel 'psychological prison' sydd yn torri uchelgais ac yn labeli plant (dyfynnwyd yn Holmes a Kitto, 2019, t.855). Noda Budden bod grwpio plant yn ôl ei gallu yn tybio bod athrawon yn gwybod yn union beth sydd angen ar bob plentyn i lwyddo o fewn gwrs (Budden, 2017). Ond mae hyn yn anghyffredin iawn gan fod cyflawni tasgau ddim yn adlewyrchu llwyddiant bob tro (Budden, 2017).

Yn ôl Gurgenidze (2012, t.56), mae athrawon sy'n addysgu gan ddefnyddio grwpiau gallu cymysg yn gweld hi'n dasg anodd iawn ac yn waith ymdrechgar. Mae angen cynllunio gwrsi sy'n cynnwys nifer o dasgau amrywiol sy'n cyfateb i amrywiaeth o arddulliau dysgu (Gurgenidze, 2012, t.56). Mae Bradbury a Holmes (2017, t.8) yn trafod hefyd bod grwpio yn ôl gallu cymysg yn "places greater demands on the teacher". Felly, mae Gurgenidze yn ogystal â Bradbury a Holmes yn cytuno bod grwpio yn ôl gallu cymysg yn dasg heriol yn enwedig i'r athro o ran cynllunio a pharatoi. Er hyn, mae llawer iawn o fanteision o ran grwpio plant yn ôl gallu cymysg. Noda Cohen et al (1996, t.204) bod grwpiau gallu cymysg yn hyrwyddo hunan barch a chymhellid. A hefyd mae "mutual respect, support, understanding and tolerance" (Cohen, Manion a Morrison, 1996, t.204) yn datblygu rhwng disgyblion.

Credai Holmes a Kitto (2019, t.854) bod grwpio yn ôl gallu yn effeithio ar brofiadau pedagogaid yn enwedig i'r plant o fewn grwpiau o allu 'is'. Mae'r plant hyn hefyd yn cael eu cyfyngu o ran y "tools required for successful participation in school... limit and constrain some young children's aspirations" (Holmes a Kitto, 2019, t.854). Ysgrifennodd Bradbury a Holmes (2017) adroddiad 'Grouping in Early Years and Key Stage 1 "A Necessary Evil"?' Yn yr adroddiad hwn, adlewyrchwyd un o'r prif broblemau wrth ddosbarthu plant yn ôl ei gallu sef y potensial i gyfyngu'r dysgu (Bradbury a Holmes, 2017, t. 10). Mae'r cyfyng i'r dysgu yn cael ei greu gan "placing a cap on what children can achieve" (Bradbury a Holmes, 2017, t.10). Er hyn yn ôl Hallam a Ireson mae yna gred gyffredin bod grwpio plant yn medru caniatáu disgyblion i "learn at the right pace and level" (dyfynnwyd yn Bradbury a Holmes, 2017, t.8). Mae hi'n amlwg felly bod y testun o sut dylai plant cael ei grwpio yn creu barnau a dadleuon cryf iawn, gyda'r mwyafrif o bobl yn anghytuno gyda grwpio plant yn ôl ei gallu. Er hyn dangoswyd y llenyddiaeth bod cyfyngiadau i rwpio plant yn ôl gallu cymysg hefyd.

Cynllun Astudiaeth Gwers

Y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn ystod y prosiect ymchwil oedd astudiaeth wers sef ymchwil gweithredol. Diffiniwyd Dudley (2012, t.1) astudiaeth wers fel "highly specified form of classroom action research". Mae astudiaeth wers yn cael ei ddefnyddio er mwyn ddatblygu "teacher practice knowledge" (Duldey, 2012,t.1). Yn ôl Dudley (2012, t.1) mae astudiaeth

gwers yn cynnwys grwpiau o athrawon sydd yn cynllunio, addysgu ac yn arsylwi ar y dysgu ac addysgu'n gydweithredol o fewn gwersi ymchwil. Mae Murphy et al (2017, t.4) yn rhoi diffiniad tebyg i Dudley gan nodi bod astudiaeth wers yn ddull poblogaidd i ddatblygiad proffesiynol yr athro. Mae'r broses o'r astudiaeth yma'n cael ei defnyddio'n fawr iawn yn Siapan ac mae cydweithio'n rhan annatod gan ei fod yn cynnwys "collaborative planning of a lesson" (Godfrey et al, 2018, t.325). Prif nod yr astudiaeth wers yw gwella dysgu a chynnydd disgyblion (The National Strategies, 2009, t.5). Gwelir y gwelliant yma trwy allu'r ymchwilydd i ddatblygu eu hymarfer yn seiliedig ar adborth (Murphy et al, 2017, t.4). Fel y mae Dudley yn nodi (2012, t.4), mae astudiaeth wers yn rhoi profiadau uniongyrchol i'r ymchwilydd gan eu bod nhw'n digwydd o fewn "real classrooms with real pupils".

Un o ddulliau o gasglu data a ddefnyddir oedd arsylwi, ac roeddwn yn arsylwi heb gyfranogi. Dyweda Kumar (2005, t.120) bod y dull hwn yn caniatáu i mi wyllo a gwranddo ar weithgareddau'r grŵp ac yn cofnodi'r hyn a arsylwyd i lawr. Mae arsylwi'n caniatáu'r ymchwilydd i gasglu "live" data from naturally occurring social situations" (Cohen, Manion a Morrison, 2013, t. 456). Ac felly yn debyg i astudiaeth wers mae arsylwi yn rhoi profiad uniongyrchol i'r ymchwilydd, yn ogystal â hyn mae'r ymchwilydd yn medru gweld yn y plentyn o fewn ei awyrgylch naturiol. Mae arsylwi'n galluogi'r ymchwilydd i edrych yn syth at beth sydd yn digwydd "in situ" (Cohen, Manion a Morrison, 2013, t. 456) yn lle dibynnu ar "second-hand accounts" (Cohen, Manion a Morrison, 2013, t. 456). Fel dyweda Cohen et al mae arsylwi'n ddull defnyddiol iawn gan ei bod yn caniatáu profiadau i'r ymchwilydd gweld pethau nad ydych yn medru gweld neu brofiadu trwy wrando neu trwy adborth.

Mae arsylwi'n galluogi ffocws ar ddigwyddiadau o fewn y dosbarth megis "the amount of group collaborative work" (Cohen, Manion a Morrison, 2013, t. 456). Roedd ymgysylltiad gydag eraill o fewn grŵp yn hanfodol bwysig i fy nghwestiwn ymchwil ac felly fe wnaeth arsylwi galluogi hyn. Er hyn, nid yw arsylwi'n ddull hollol ddibynadwy neu yn hawdd defnyddio. Yn ôl Cohen et al (2013, t. 459) yn gyffredinol, mae arsylwi'n cymryd gormod o amser ac yn dueddol o greu rhagfarn yn nhermau o beth, pam, pryd, ble, pwy a sut mae'r arsylwr yn arsylwi. Yn ychwanegol mae Cohen et al (2013, t. 209) yn adlewyrchu bod arsylwi yn gallu creu pryderon sef "fears that observers' judgement will be affected by their close involvement in the group". Mae hyn felly'n cwestiynu dilysrwydd cyfannol y dull hwn (Cohen, Manion a Morrison, 2013, t.209).

Dyweda Cohen et al (2013, t.473) bod cyfranogwyr yn gallu newid ei ymddygiad yn ystod arsylwad, ac mae'r ymddygiad yn gallu gwella neu waethgu. Mae'r newid yn yr ymddygiad o ganlyniad i'r "Hawthorne Effect...what is observed may not represent their normal behaviour" (Kumar, 2005, t.120). Mae hyn yn gallu amharu ar ddibynnedd y data a chasglwyd felly gan fod y plant ddim yn bihafio nac yn ymateb yn ei ffordd arferol.

Dewiswyd y sampl cyfleus o dri phlentyn gyda chymorth yr athrawes ddosbarth. Cynnwys y sampl oedd dau fachgen ac un ferch o lefelau gallu gwahanol o flynyddoedd 1 a 2 . Mae'r data a gasglwyd trwy arsylwi yn ansoddol, a chreda Mason (2007, t.2) bod hi'n anodd diffinio ymchwil ansoddol gan ei fod ddim yn "unified set of techniques or philosophies". Er hyn diffiniwyd Cohen et al (2013, t.537) data ansoddol fel "making sense of data in terms of the participants definitions of the situation". Defnyddiwyd grwpiau ffocws o fewn astudiaeth wers gan ei fod yn galluogi cyfathrebu rhwng cyfranogwyr ymchwil ar ymchwilydd er mwyn cynhyrchu data (Kitzinger, 1995, t.299). Casglwyd sylwadau oddi wrth blant gan ddefnyddio taflen arsylwi a greais gyda fy nghyd ymchwilydd. Fe wnaeth y daflen hon ein galluogi i fesur hyder y plant gan ddefnyddio Graddfa Leuven. Defnyddiwyd siart cyfrif (tali) er mwyn cofnodi parodrwydd y plant i helpu eraill a hefyd cofnodon ni ddyfyniadau uniongyrchol y plant. Roedd hyn yn ddiddorol ac yn ddefnyddiol iawn wrth adfyfrio ar ein hymchwil.

Cynhaliwyd y cyfweiliadau gyda phlant ein sampl ar ôl arsylwi. Noda Mason (2007, t.82) bod cyfweiliad yn "possibly the most widely used methods in qualitative research". Mae cyfweiliadau yn ffordd addas ac ymarferol (Mason, 2007, t.82) o gasglu meddyliau pobl sydd yn medru rhoi cymorth i'r ymchwil. Er hyn mae cyfyngiadau i'r dull yma gan gynnwys yr ymddiriedaeth o siarad trwy gyd-destun sbesiffig a chwaethus (Mason, 2007, t.83). Cynhaliwyd ein cyfweiliadau mewn ystafell a oedd yn gyfarwydd â diogel i'r plant a gofynnwyd cwestiynau a wnaeth esblygu ein dealltwriaeth o'r ymddygiad dangosodd y plant yn ystod y dasg. Roedd y cyfweiliadau lled-strwythuredig wedi digwydd gydag un plentyn ar y tro er mwyn iddynt allu mynegi ei barn gan ddefnyddio geiriau ei hun. Penderfynwyd ar y cwestiynau o flaen llaw ac fe greon ni daflen cyfweiliad gyda'r cwestiynau hyn er mwyn gallu cofnodi'r atebion yn syth. Yn ôl Cohen et al (2013, t.537) mae'r defnydd o drawsgrifiad yn medru darparu manylion pwysig ac yn ddull sydd yn caniatáu i gofnodi ymatebion y cyfweiliad air am air. Fe wnaethon ni sicrhau bod y cwestiynau wedi ei eirio yn addas ac yn glir i oedran y plant. Defnyddiwyd strwythur adfyfyriol Kolb 1984 er mwyn adfyfrio ar y profiadau ymchwil.

Ystyriaethau Moesegol

Mae yna nifer o ystyriaethau moesegol yn gysylltiedig gyda gwaith ymchwil o fewn dosbarth. Wrth ymwneud a gwaith ymchwil mae risgiau yn codi, mae'r risgiau yma'n cynnwys y cyfranogwyr, yr ymchwilydd a'r risg i'r Brifysgol. Creda Ramrathan et al (2017,t.433) dylai moeseg fod yn bryder i bob ymchwilydd yn y byd cyfoes, a dylent fod yn ymwybodol o risgiau moesegol posib wrth wneud ymchwil. Trafodais yr ystyriaethau a risgiau moesegol hyn yn fy nhaflen foesegol (gwelir y ffurflen foesegol). Er mwyn osgoi'r risgiau yma fe

ddilynnais nifer o ganllawiau moesegol megis canllaw BERA, a chanllawiau a pholisïau'r Brifysgol.

Astudiaeth wers 1 a dadansoddiad- Dosbarth A

Nod yr ymchwili oedd ymgysylltiad plant o fewn grwpiau gallu a grwpiau gallu cymysg. Wrth i ni arsylwi ar y plant edrychion ni ar hyder ac ymateb y plant yn ogystal â'u pharodrwydd i gynorthwyo eraill yn eu grŵp. Yn ôl Donaldson fe fydd plant a phobl ifanc yn datblygu yn ôl y pedwar diben. Mae angen i blant a phobl ifanc "arwain ac yn chwarae rolau gwahanol mewn timau'n effeithiol ac yn gyfrifol" (Donaldson, 2015, t.29) er mwyn fod yn gyfranwyr mentrus creadigol. Y dasg ffocws yn ystod ein hymchwili oedd gweithgaredd didoli lluniau o wynebâu a oedd yn cyfleu hapusrwydd, tristwch a dicter.

Agorwyd y wers gyda thrafodaeth ynglŷn â beth sydd yn gwneud ffrind da, ymatebodd y plant yn wych a rhoddon nhw llawer iawn o esiamplau ynglŷn â hyn. Defnyddiais gardiau senario ar ôl y drafodaeth hon er mwyn atgyfnerthu dysgu'r plant am y testun. Yn ystod y dasg ffocws roedd rhaid i bob plentyn cymryd ei thro i ddewis llun a didoli i'r poster emosiwn cywir. Prif feini prawf y dasg oedd i gydweithio ag eraill gan ofyn iddyn nhw os ydyn nhw'n hapus gyda ble dylai'r llun cael ei ddioli cyn didoli'r llun. A hefyd ni ddylai'r plant torri ar draws ei gilydd yn ystod y drafodaeth grŵp. Fe wnaeth mwyafrif o'r plant mwynhau'r dasg ac wedi medru mynegi pam oedden nhw'n meddwl bod y llun yn cyfleu tristwch, hapusrwydd neu ddicter yn hyderus.

Cyflawnodd y plant y dasg o ddidoli'n arbennig o dda ond teimlaf fod y dasg ychydig rhy hawdd gan fod y plant yn hyderus iawn wrth adnabod yr emosiynau gwahanol o fewn y lluniau. Ond er hyn, prif her y dasg oedd diffyg gallu i gydweithio'r plant, yn enwedig diffyg cyfathrebu gyda gweddill y grŵp cyn didoli'r llun. Yn lle dilyn y meini prawf llwyddiant o siarad gyda'r grŵp am ble dylai'r llun cael ei ddioli, roedd mwyafrif o'r plant yn didoli'r llun yn annibynnol. Roedd cydweithio'n annatod i'r gweithgaredd yma, ond mae cydweithio hefyd yn bwysig o fewn dysgu ac addysgu da. Fel dyweda'r ddogfen 'Dyfodol Llwyddiannus' mae egwyddor deuddeg yn datganu "mae addysgu a dysgu da yn hybu cydweithio" (Donaldson, 2015, t.70).

Dangosodd canfyddiadau arsylwi fy nghyd ymchwilydd nifer o bethau diddorol. Dim ond plentyn B wnaeth cyflawni'r meini prawf llwyddiant yn gywir gan ofyn i aelodau eraill y grŵp cyn didoli'r llun (gwelir atodiad 2). Mae'r unigolyn yma'n awtistig ac yn hoffi dilyn rheolau ac felly gall hyn wedi ei ganiatáu i ddilyn meini prawf y dasg. Dewisodd y plentyn yma luniau a oedd yn cyfleu hapusrwydd yn bennaf yn ogystal â chymeriadau gyda gwallt coch gan fod y rhain yn atgoffa'r plentyn o aelodau'u deulu (gwelir atodiad 2). Roedd plentyn B wedi ymgysylltu'n llawn yn y dasg ac wedi cyfathrebu'n wych gyda gweddill y grŵp. Noda Goodall

(2015, t.308) bod cynhwysiad o fewn ysgolion prif lif yn fuddiol i blant gydag awtistiaeth, gan ei fod yn rhoi cyfleoedd iddynt ddysgu o'u cyfoedion a gwneud cynnydd o fewn ei sgiliau cymdeithasol. Sgoriodd plentyn B bedwar yn ôl ei hyder ac ymateb i eraill yn y grŵp gan ddefnyddio graddfa Leuven (gwelir atodiad 2), i gymharu â phlentyn A a C (gwelir atodiadau 1 a 3) oedd wedi sgorio dau a thri ar gyfer y meysydd hyn. Dangosodd yr arsylwad hefyd bod plentyn A a B wedi helpu ei chyfoedion pedwar gwaith yn ystod y dasg ffocws (gwelir atodiadau 1 a 2).

Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda'r tri phlentyn yn ein sampl ymchwil ar ôl yr arsylwad, o fewn ystafell a oedd yn gyfarwydd i'r plant er mwyn iddyn nhw'n teimlo'n ddiogel a hapus i drafod. Dangosodd y cyfweiliadau hyn bod dau o'r tri phlentyn ddim yn hapus yn gweithio yn eu grwpiau gallu (gwelir atodiadau 4 a 6). Dywedodd plentyn A nad oedd hi'n hoffi ei grŵp gan fod eraill yn gas ac yn gweiddi arni hi (gwelir atodiad 4). Hefyd, dywedodd plentyn A hoffai hi symud grŵp o ganlyniad i hyn. Yn debyg, nid oedd plentyn C yn hoffi gweithio yn ei grŵp oherwydd nid oedd yn hoffi enw'r grŵp neu ddim yn dod ymlaen gydag un aelod o'r grŵp yma (gwelir atodiad 6). Ond yn wahanol, dywedodd plentyn B ei fod yn hapus yn gweithio yn ei grŵp gallu (gwelir atodiad 5). Wrth ddadansoddi'r atebion hyn i'r cwestiynau mae'n amlwg bod rhan fwyaf o'r sampl yn anhapus yn gweithio o fewn eu grwpiau gallu. Mae hyn yn mynd yn erbyn canfyddiadau arolwg YouGov a wnaeth ddangos bod gwell gan blant cael ei grwpio yn ôl gallu yn lle cymysg (George, 2018).

Yn ystod y dasg ffocws roedd hi'n amlwg bod angen datblygu sgiliau cyd-weithio'r plant yn ystod y wers ymchwil nesaf ac mewn gwersi yn gyffredinol. Er bod plentyn A a B wedi gofyn i eraill cyn didoli llun, roedd hi'n amlwg eu bod nhw wedi gwneud ei phenderfyniad o le i ddidoli cyn gofyn i eraill. Ond ar y llaw arall, nid oedd plentyn C wedi gofyn i weddill y grŵp o gwbl, fe wnaeth e ddidoli'r lluniau'n annibynnol (gwelir atodiad 3). Roedd yn amlwg felly bod angen i'r plant dderbyn mwy o ymarfer a chyfleoedd a oedd yn hyrwyddo cydweithio gydag eraill. Wrth ddefnyddio model adfyfyriol Kolb gyda fy nghyd ymchwilydd (gwelir atodiad 13), penderfynon ni gyflwyno dau weithgaredd a oedd yn hyrwyddo sgiliau cydweithio ychwanegol yn y wers ymchwil nesaf. Nid oedden ni am arsylwi'r gweithgareddau hyn ond roedden ni am roi mwy o gyfleoedd i'r plant i ddatblygu eu sgiliau cydweithio. Wrth gyfweld a'r tri phlentyn yn ein sampl roedd hi'n eithaf amlwg nad oedd y plant yn teimlo'n gyfforddus gan fod fy nghyd ymchwilydd yn eistedd wrth fy ochr i. O ganlyniad i hyn teimlaf nad oedd y plant wedi mynegi ei hunain yn glir ac yn hyderus. Felly yn y wers ymchwil nesaf penderfynon ni gynnal y cyfweiliadau gyda'r cyd ymchwilydd o fewn yr un ystafell ond nid yn eistedd wrth ochr yr ymchwilydd a oedd yn cyfweld. Mae Adams (2015, t.493) yn cyfleu bod angen i gyfweiliadau bod yn smart a sensitif. Felly, wrth newid ein cyfweiliad, teimlaf ein bod ni wedi llwyddo i wneud hyn.

Astudiaeth wers 2 a dadansoddiad- Dosbarth B

Yn debyg i'r wers ymchwil gyntaf roedd y sesiwn agoriadol yn cynnwys trafodaeth ynglŷn â beth sydd yn gwneud ffrind da gan ddefnyddio'r cardiau senario. Roedd y plant yn medru mynegi mewn geiriau eu hunain beth sydd yn gwneud ffrind da yn hyderus. Ychwanegon ni dasgau cydweithio eraill o fewn y wers hon. Noda Hattie pwysigrwydd cydweithio enwedig dysgu o gyfoedion. Disgrifia ef fod dysgu o gyfoedion yn gallu bod yn bwerus (Hattie, 2009, t. 214), ac yn llawer mwy effeithiol i gymharu â dulliau unigoliaethol (Hattie, 2009, t.212). Yn anffodus ni welsom wahaniaeth yn sgiliau cydweithio plant dosbarth B i gymharu â phlant dosbarth A. Yn ystod y dasg ffocws roedd y meini prawf yr un peth a'r wers ymchwil flaenorol, ac roedd cydweithio a thrafod ag eraill yn rhan annatod o'r dasg didoli'r lluniau. Prif newid i'r wers hon oedd bod y plant nawr wedi ei grwpio yn ôl gallu cymysg i gymharu â gwers ymchwil dosbarth A oedd wedi grwpio yn ôl gallu.

Wrth arsylwi ar blentyn A (gwelir atodiad 7) roedd yn amlwg ei bod hi'n hyderus iawn wrth ddidoli'r lluniau, ond ni ddilynodd y meini prawf pob tro. Er hyn gofynnodd i'w ffrind unwaith "beth wyt ti'n meddwl?". Nid oedd plentyn A wedi gofyn i weddill y grŵp yn hytrach fe wnaeth hi ffafrio ei ffrind o fewn y grŵp. Roedd yn eithaf amlwg bod plentyn A yn annibynnol iawn ac nid oedd ots ganddi am farnau eraill y grŵp ynglŷn â lle dylai'r llun cael ei ddidoli. Diflasodd erbyn hanner ffordd trwy'r dasg gan roi ei phen i lawr ar y bwrdd. Yn wahanol, fe wnaeth plentyn B (gwelir atodiad 8) ddilyn meini prawf y dasg gan ofyn i weddill y grŵp cyn didoli'r llun. Yn ogystal â hyn fe wnaeth symud ei phen er mwyn cytuno neu anghytuno gyda gweddill y grŵp hefyd. O ran graddfa Leuven sgoriodd plentyn B (gwelir atodiad 8) pedwar a phump o ran ei hyder ac ymateb i'r dasg, i gymharu â phlentyn A (gwelir atodiad 7) a wnaeth sgorio tri a phedwar yn y meysydd hyn. Dilynodd plentyn C y meini prawf ychydig o weithiau yn ystod y dasg gan ofyn i eraill cyn didoli ond nid pob tro. Roedd plentyn C yn eithaf tawel yn ystod y dasg ond yn ymweld yn hapus ac yn mwynhau, a sgoriodd pedwar ar y raddfa Leuven ac roedd wedi helpu eraill yn ystod y dasg (gwelir atodiad 9).

Yn ystod cyfweiliadau astudiaeth wers dau, eisteddais yn yr un ystafell ond nid wrth ochr fy nghyd ymchwilydd er mwyn i beidio ofni'r plant gan fy mod yn berson newydd iddynt . Mae hyn yn cyd-fynd gyda barn Cohen et al (2013, t. 361) ynglŷn â chyfweiliadau, oherwydd dywedon nhw dylai'r cyfwelydd "establish an appropriate atmosphere". Pan mae'r awyrgylch yma wedi cael ei sefydlu fe fydd y cyfranogwr yn teimlo'n ddiogel i siarad yn rhydd (Cohen, Manion a Morrison, 2013, t. 361). Gwelais newid fawr yn ymateb y plant yn ystod y cyfweiliad hwn i gymharu â chyfweiliadau astudiaeth wers un. Efallai roedd newid lle oeddwn i wedi eistedd o fewn yr ystafell wedi galluogi hyn. Wrth gyfweld â'r tri phlentyn ynglŷn â'u

teimladau am weithio yn y grŵp newydd yn ystod y dasg, dywedodd y tri ohonynt eu bod yn hapus ac wedi mwynhau gweithio gyda phlant newydd y grŵp (gwelir atodiadau 10,11,12). Mae'r canlyniad yma'n hollol gyferbyniol i deimladau'r tri phlentyn yn Nosbarth A (gwelir atodiadau 4,5,6) gan eu bod wedi trafod ei anhapusrwydd o fewn eu grwpiau gallu.

Wrth adfyfrio ar y ddwy astudiaeth wers ymchwil hon gan ddefnyddio model adfyfyriol Kolb (gwelir atodiadau 13 a 14) fe ddysgais fod angen mwy o ymarfer a gweithgareddau sydd yn hyrwyddo sgiliau cydweithio'r plant. Yn ôl Hillyard nid oes gan blant ifanc y sgiliau sydd angen arnynt i gydweithio'n addas (Hillyard, 2020). Noda Hillyard bod angen ffocysu ar sut i gydweithio a pheidio disgwyl plant i allu cydweithio heb wybod sut (Hillyard, 2020). Er bod y gwersi ymchwil wedi cynnwys meini prawf llwyddiant o ofyn i eraill cyn didoli, wrth fyfrio, fe ddylwn i a fy nghyd ymchwilydd wedi dangos sut i wneud hyn fel esiampl i'r plant. Gan sgaffaldio'r dasg i'r plant efalla, i fe fyddai'r plant wedi deall sut i gydweithio wrth gwblhau'r dasg. Dyweda Alber, er mwyn creu dosbarth a phlant sydd yn medru cyd-weithio mae angen i athrawon "frequently model listening, paraphrasing, artful questioning, and negotiating" (Alber, 2012).

Canfyddiadau ymchwil

Teimlaf yn ddiolchgar iawn am y gwaith ymchwil yma gan fy mod wedi dysgu cryn dipyn ynglŷn â sgiliau cyd-weithio plant blwyddyn un a dau yn ogystal â sut oedd grwpio wedi effeithio ar ymgysylltiad y plant. Dangosodd yr ymchwil hon bod sgiliau cydweithio'r plant o fewn ein hymchwil yn wan. Roedd hyn yn siomedig gan fod egwyddor deuddeg o'r ddogfen 'Dyfodol Llwyddiannus' yn nodi bod y gallu i weithio gydag eraill yn effeithiol ac fel rhan o dîm yn "un o'r sgiliau allweddol...yn y gweithle modern" (Donaldson, 2015, t. 70). Mae Wehbe yn cytuno gyda hyn gan nodi bod y sgiliau yma'n holl bwysig ac yn cael ei weld yn sgil hanfodol yn y byd busnes (Wehbe, 2017). Dangosodd ein hymchwil bod rhan fwyaf o'r plant yn ein sampl wedi ffafrio cwblhau'r dasg yn annibynnol yn lle cydweithio gydag eraill. Yn ôl Shea mae nifer o ddisgyblion yn "strongly prefer to work alone and actively dislike dealing with the problems created by having to work in groups" (Shea, 1995).

Teimlaf fod ein gwersi ymchwil wedi llwyddo i ateb ein cwestiwn- ydy ymgysylltiad y plant yn newid o ganlyniad i grwpio? Wrth i mi arsylwi plant dosbarth B fe wnaethon nhw sgorio'n well o ran ymateb a hyder gan ddefnyddio graddfa Leuven (gwelir atodiadau 7,8,9). Wrth i ni gyfweld a'r plant yn nosbarth A a B, fe roedd plant dosbarth B llawer mwy hapusach yn ei grŵp newydd sef grŵp gallu cymysg (gwelir atodiadau 10,11,12). Roedd dau o'r tri phlentyn yn nosbarth A wedi mynegi nad oeddynt yn hapus wrth weithio yn ei grwp gallu. Felly, dangoswyd y cyfweiliadau a'r arsylwadau o'r ddwy astudiaeth wers bod lles a hyder y plant yn well pan maent yn gweithio o fewn grwpiau o allu cymysg yn lle grwpiau gallu. Mae'r

canfyddiadau hyn yn cytuno gyda manteision grwpiau gallu cymysg mae Cohen, Manion a Morrison yn trafod. Mae grwpio plant yn ôl gallu cymysg yn galluogi cymysgedd cymdeithasol eang o fewn y dosbarth (Cohen, Manion a Morrison, 1996, t.204). Gan rwpio plant yn grwpiau o allu cymysg mae hunanhyder y plant yn cael ei hyrwyddo (Cohen, Manion a Morrison, 1996, t.204). Ar y llaw arall ac i'r gwrthwyneb noda Grant bod grwpio plant yn ôl ei gallu yn creu problemau ynglŷn â hunan hyder y plant (Grant, 2019). Dangosodd ein hymchwil felly bod y plant o fewn grŵp gallu cymysg yn nosbarth B wedi ymgysylltu'n well yn ystod y dasg ffocws i gymharu â phlant Dosbarth A a oedd wedi grwpio yn ôl ei gallu.

Casgliad

Wrth ddadansoddi'r gwersi ymchwil, mae cyfyngiadau i'r dull cyfweld wedi codi. Gwelais newid mawr yn ymddygiad ac ymateb y plant rhwng cyfweiliadau astudiaeth wers un a dau. Yn ystod cyfweiliadau astudiaeth wers un roedd y plant yn fwy swil nag arfer a heb ymateb mewn ffordd roeddwn wedi disgwyl iddynt. Roedd yr ymateb hwn o bosib o ganlyniad i'r 'Hawthorne Effect'. Noda Payne (2004, t. 107) bod pobl yn gwybod maent yn cael ei astudio ac felly maen nhw'n ymddwyn yn wahanol "modify their behaviour". Gan fod fy nghyd ymchwilydd yn eistedd wrth fy ochr yn ystod y cyfweiliadau, teimlaf fod hyn wedi amharu ar ymateb y plant. Yn ôl Payne (2004, t. 107) mae cyfranogwyr yn medru cuddio eu teimladau a'u gweithredoedd gan nad ydyn nhw eisiau rhannu hyn gyda rhywun sydd "outside their everyday lives". Gellir cwestiynu felly dibynadwyedd yr ymatebion a'r data a gasglwyd yn ystod cyfweiliadau astudiaeth wers un o ganlyniad i'r 'Hawthorne Effect'. Er mwyn osgoi hyn yn ystod astudiaeth wers dau fe wnes i a fy nghyd ymchwilydd benderfynu newid lleoliad y cyd ymchwilydd a oedd yn berson newydd i'r plant. Symudodd y cyd ymchwilydd i eistedd allan o olwg y plant ond dal mewn clyw. Newidiodd ymddygiad ac ymateb y plant yn ystod y cyfweiliad ac roeddynt yn llawer mwy hyderus a barod i drafod.

Wrth arsylwi yn ystod yr astudiaeth wers, defnyddiwyd taflen arsylwi a greais gyda fy nghyd ymchwilydd (gwelir atodiadau 7,8,9). Roedd y daflen ei hun yn eithaf syml gydag is deitlau a wnaeth helpu i arsylwi'r hyn a oedd yn bwysig i'r cwestiwn ymchwil. Os byddai'n defnyddio'r daflen arsylwi yma eto fe fyddai'n newid cynnwys y daflen . Roedd dau is-destun y daflen yn cynnwys rhifau un i bump a deilliwyd o Raddfa Leuven. Yn ystod y gwersi ymchwil roedd angen taflen ychwanegol a oedd yn cynnwys y raddfa yma, roedd hyn yn lletchwith o dro i dro. Nid oeddwn wedi peilota'r taflen yma cyn yr astudiaeth wers, felly yn ystod ymchwil yn y dyfodol rwyf am beilota taflenni arsylwi cyn mynd ati i ymchwilio. Mae peilota yn ddefnyddiol gan ei bod yn adlewyrchu ble a sut mae angen addasu cyn yr astudiaeth ei hun (Majid et al, 2017, t.1073-4).

Felly er mwyn osgoi hyn yn y dyfodol fe fyddai'n cynnwys y raddfa ei hun gydag esboniad pob sgôr yn y daflen arsylwi ei hun. Ysgrifennais nodiadau ar bob unigolyn yn ystod yr arsylwad a hefyd cofnodi faint o weithiau wnaeth plentyn cynorthwyo eraill. Gan fy mod wedi cofnodi yn ystod yr arsylwad fe wnaeth hyn osgoi "the quantity of information forgotten" (Cohen, Manion a Morrison, 2013, t. 260), gan fod hyn yn cynyddu wrth i fwy o amser mynd heibio (Cohen, Manion a Morrison, 2013, t. 260). Teimlaf felly bod y data a gasglwyd wrth ddefnyddio'r taflenni arsylwi yn ddibynadwy.

Gan fod y sampl ymchwil yn fach iawn o ganlyniad i'r sampl cyfleus, nid oedd cyffredinolli wedi ymddangos yn broblem yn ystod yr ymchwil. Noda Cohen et al (2013, t.114) bod y paramedrau o gyffredinolli o fewn sampl cyfleus yn ddibwys. Er hyn gellir dadlau dibynadwyedd yr ymchwil o ganlyniad i'r sampl bach yma. Yn ôl Cohen et al (2013, t.101) "the larger the sample the better, as this ...gives greater reliability".

Argymhellion

Os byddaf yn gwneud ymchwil i astudiaethau wers eto hoffwn sicrhau fy mod yn peilota unrhyw daflenni fe fyddai'n defnyddio er mwyn lleihau dryswch yn ystod yr astudiaeth a'r arsylwad wers ei hun. Ar ôl profiadu 'Hawthorne effect' yn uniongyrchol yn ystod cyfweiliad gyda'r cyfranogwyr, fe fyddai'n sicrhau bod y cyd ymchwilydd 'dieithr' yn cael ei leoli yn bell o'r cyfranogwyr.

Dangoswyd yr ymchwil bod ymgysylltiad y plant yn well pan maent yn gweithio o fewn grwpiau gallu cymysg yn ystod yr achlysur hwn. Serch hynny weithiau mae angen grwpio yn seiliedig ar natur y dasg a sicrhau bod y plant yn cael y gorau allan o'r profiad o ddysgu. Yn ôl Hallam a Ireson mae angen i blant "learn at the right pace and level" (dyfynnwyd yn Bradbury a Holmes, 2017, t.8).

Er fy mod wedi gallu ateb fy nghwestiwn ymchwil hoffwn barhau gyda'r ymchwil yma yn ystod fy ngyrfa o addysgu gan fod y testun yma'n ddiddorol dros ben. Hoffwn ymchwilio yn bellach ond yn annibynnol gyda fy nosbarth fy hun sef un grwp o blant i weld os ydy newid sut i grwpio plant yn effeithio ar yr addysgu a dysgu. Ar ôl darllen y llenyddiaeth a'r gwahanol farnau am sut i grwpio'r plant, mae manteision wrth ddefnyddio'r ddau fath o grwpio ac edrychaf ymlaen at arbrofi yn fy nosbarthiadau yn y dyfodol.

5156 o eiriau.